Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 51/2025

Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2025

# Agweddau’r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 8, Tachwedd 2024

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN **978-1-83715-696-2**

# Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 8, 2024


Awdur:

Chris Timmins, Beaufort Research



Adroddiad Ymchwil Llawn: Timmins, C. (2024). Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 8, 2024. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad YGLI 51/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-tuag-gosbi-plant-yn-gorfforol-arolwg-cam-8-tachwedd-2024



Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Hannah Davies:

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cfcresearchandevidenceteam@gov.wales

## Tabl y cynnwys

Rhestr o ffigurau a thablau ........ 2
1. Cyflwyniad ........ 4
2. Agweddau tuag at smacio ........ 8
3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol ........ 12
4. Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ........ 16
5. Barn am y newidiadau i'r ddeddfwriaeth ........ 25
6 Casgliadau ........ 32
Atodiad A – Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta ........ 34
Atodiad B – Holiadur yr arolwg ........ 38
Atodiad C – Dull ymchwil ........ 42
Atodiad D – Disgrifiad o'r newid i'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i ymatebwyr yn arolwg mis Tachwedd 2024 ........ 44
Atodiad E – Diffiniad o raddau cymdeithasol ........ 45
Atodiad F – Meintiau is-samplau ........ 46
Atodiad G – Tablau cryno Ton 1 i 8 ........ 47

# Rhestr o ffigurau a thablau

Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024)................................ 8

Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb a pha un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau -Tachwedd 2024)9

Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl y rhywiau a grwpiau oedran – Tachwedd 2024) ........................................ 10

Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Tachwedd 2024) ...................................................... 11

Ffigur 3.1: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, Tach 2023, Tach 24) ................ 13

Ffigur 3.2: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Tachwedd 2024) ........................................................................................................ 14

Ffigur 3.3: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl y rhywiau ac yn ôl grŵp oedran - Tachwedd 2024) .................................... 15

Ffigur 3.4: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Tachwedd 2024) ...................................................... 15

Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024)......................................................................................................................... 16

Ffigur 4.2: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio – Tachwedd 2024)....................................................... 17

Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol – Tachwedd 2024) ........................................................................................................ 18

Tabl 4.1: Allwch chi ddweud wrthyf sut y mae'r gyfraith wedi newid yn eich tyb chi? - Tachwedd 2024 [Digymell] ............................................................................................ 19

Tabl 4.2: Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol? - Tachwedd 2024 ............................................................................ 20

Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024) ........................................................................................... 21

Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Tachwedd 2024) ................................. 22

Ffigur 4.6: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol - Tachwedd 2024) ......................................................................... 23

Ffigur 4.7: Y ganran a oedd yn meddwl y byddai pob lefel o gosb yn dal i gael ei chaniatáu ar ôl y newid i'r gyfraith – Tach 2022, 2023, 2024 ................................................................ 24

Ffigur 5.1: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024)............................... 25

Ffigur 5.2: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio – Tachwedd 2024) ........................................................................................................ 26

Ffigur 5.3: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl grŵp oedran - Tachwedd 2024) ................................................................. 27

Ffigur 5.4: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl y rhywiau - Tachwedd 2024) ...................................................................... 27

Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? - Tachwedd 2024 [Digymell]............................... 28

Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? - Tachwedd 2024 [Digymell] .............. 29

Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? – Tachwedd 2024 [Digymell] ......................................................................................... 30

Tabl A1.1: Diffiniadau o raddau cymdeithasol ..................................................................... 45

Tabl A1.2: Meintiau samplau'r is-grwpiau........................................................................... 46

Tabl A1.3: Cwestiwn: C1 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn? ........................................................................... 47

Tabl A1.4: Cwestiwn: C2 Ydych chi'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant?.................................................................................................................................. 48

Tabl A1.5: Cwestiwn: C3. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf? ......................... 49

Tabl A1.6: Cwestiwn: C4. Allwch chi ddweud wrthyf sut y mae'r gyfraith wedi newid yn eich tyb chi? ............................................................................................................................... 50

Tabl A1.7: Cwestiwn: C5 Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?............................................................................... 52

Tabl A1.8: Cwestiwn: C6 Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am newid y gyfraith o gwbl? [DISGRIFIAD O'R NEWID YN Y GYFRAITH WEDI CAEL EI DDARPARU]....................................................................................................................... 55

Tabl A1.9: Cwestiwn: C7 Pa rai o'r datganiadau canlynol ynglŷn â newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau?.... 56

Tabl A1.10: Cwestiwn: C8a Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? ............................................... 57

Tabl A1.11: Cwestiwn: C8b Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?................................... 59

Tabl A1.12: Cwestiwn: C8c Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen?............................................................................................................................... 61

Tabl A1.13: Cwestiwn: C9 Yn awr bod y gyfraith wedi newid, pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi'n meddwl sy'n dal i gael eu caniatáu? Cosb gorfforol sydd……........................... 63

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir ac amcanion

1.1 Cyflwynwyd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru[1] ar 25 Mawrth 2019. Ar 20 Mawrth 2020 cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Daeth y ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022.

1.2 Amcan trosfwaol y ddeddfwriaeth yw helpu i amddiffyn hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol yn erbyn plant, trwy gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu nad yw'r amddiffyniad ar gael mwyach o fewn tiriogaeth Cymru i rieni neu'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant), fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin ar blentyn a churo plentyn sydd yn eu gofal.

1.3 Mae Adran 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Fe adolygwyd yr ymgyrch arfaethedig i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws i ganolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio gyda chynulleidfaoedd penodol a hybu a chefnogi rhianta cadarnhaol tan haf 2021. Dechreuodd ymgyrch amlgyfrwng i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, a oedd yn cynnwys hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, yn ysgafn ym mis Mehefin 2021 gyda hysbysebu digidol, ac fe lansiodd yn llawn ym mis Medi 2021, chwe mis cyn cychwyn y newid i'r ddeddfwriaeth. Bu'r bwrlwm mwyaf o ran gweithgarwch cyfathrebu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, yn union cyn cychwyn y newid yn y gyfraith. Mae gweithgarwch wedi'i dargedu'n parhau i gynnal ymwybyddiaeth uchel o'r newid i'r ddeddfwriaeth a hybu dewisiadau yn lle cosbi'n gorfforol.

1.4 Amcan yr ymchwil hon oedd adeiladu ar donnau blaenorol o ymchwil a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, oni nodir yn wahanol, yn 2018, 2019, 2020, 2021 (2

[1] Ym mis Mai 2020 cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ailenwi'n Senedd Cymru - Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (llyw.cymru)

don – y naill ym mis Mawrth, y llall ym mis Tachwedd), 2022 a 2023 o ran agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol gan gynnwys y ddeddfwriaeth. Cyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn rhwng 4 a 24 Tachwedd 2024, oddeutu 2 flynedd ac 8 mis wedi i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

### 1.2 Nodyn ar newidiadau i'r dull o gasglu data dros amser

1.5 Fe wnaed y gwaith maes ar gyfer arolygon 2020, 2021 a mis Mawrth 2022 yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd Covid-19. O ystyried y cyfyngiadau a oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd yn bosibl cynnal yr arolwg yn yr un ffordd â'r tonnau blaenorol. Yn 2018 a 2019, defnyddiodd yr ymchwil ddull gweinyddu gan gyfwelydd wyneb-yn-wyneb yn y cartref.

1.6 Fe gwblhawyd arolygon 2020, 2021 a mis Mawrth 2022 trwy ddull hunangwblhau ar-lein gan ddefnyddio panel ar-lein[2]. Fe gwblhawyd arolygon mis Tachwedd 2022, mis Tachwedd 2023 a mis Tachwedd 2024 yn y ffordd hon hefyd, fel y bydd unrhyw donnau yn y dyfodol, gan bod cyfrwng yr arolwg, sef Arolwg Omnibws Cymru Beaufort, wedi symud yn barhaol i'r dull casglu data yma. Er bod yr arolwg ar-lein a'r arolygon wyneb-yn-wyneb blaenorol wedi'u bwriadu i gynhyrchu samplau cynrychiolaidd o'r boblogaeth oedolion (16+ oed) yng Nghymru, mae'n bosibl y gallai'r newid dull fod wedi cael rhywfaint o effaith ar y canlyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd rhai ymatebwyr yn ateb yn wahanol pan nad oes cyfwelydd yn bresennol, ac mae angen i rai cwestiynau a oedd yn ddigymell yn flaenorol gael eu fframio'n wahanol pan nad oes cyfwelydd yn bresennol i godio atebion. Er ei bod yn anodd bod yn bendant ynglŷn â hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau'n tueddu i fod yn fwy ar gyfer cwestiynau sy'n holi am werthoedd ac ymddygiad, gydag effeithiau llai ar gyfer gwybodaeth fwy ffeithiol[3]. Dylai unrhyw newidiadau mewn canlyniadau, neu ddiffyg newid mewn canlyniadau, rhwng tonnau cyn y newid dull a'r don gyfredol, gael eu dehongli â phwyll; gallai newid fod i'w briodoli'n gyfan gwbl, yn rhannol neu beidio â bod i'w briodoli o gwbl i'r newid mewn dull. Ceir rhagor o wybodaeth am y dull ymchwil ar gyfer mis Tachwedd 2024 yn Atodiad C.

---

[2]Grŵp o gyfranogwyr ymchwil sydd wedi cofrestru i gael cyswllt o bryd i'w gilydd i gwblhau arolygon ar-lein yw panel ar-lein.
[3]Adran 9.3 [Community Life Survey - Investigating the viability of moving from a face-to-face to an online/postal mode]

## 1.3 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1.8 Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ar Arolwg Omnibws Cymru Beaufort rhwng 4 a 24 Tachwedd 2024, a weinyddwyd i gwota cynrychiolaidd o 1,000 o oedolion 16+ oed ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhieni/gwarcheidwaid ac oedolion nad ydynt yn rhieni/gwarcheidwaid. Mae canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cael eu cymharu'n fynych yn yr adroddiad hwn â setiau tebyg o gwestiynau a ofynnwyd fel rhan o Arolygon Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2018, mis Tachwedd 2019, mis Tachwedd 2020, mis Tachwedd 2021, mis Mawrth 2022, mis Tachwedd 2022 a mis Tachwedd 2023. Mae unrhyw newidiadau (mân newidiadau yn bennaf) i'r holiadur rhwng tonnau i'w gweld yn Atodiad B. Cynhelir pob Arolwg Omnibws Cymru gyda samplau ar wahân o oedolion 16+ yng Nghymru sy'n cyfateb â'i gilydd o ran demograffeg megis oedran, rhyw, rhanbarth a gradd gymdeithasol[4], er bod arolygon 2020, 2021, 2022, 2023 a 2024 (fel a nodwyd yn yr adran flaenorol) wedi cael eu cynnal trwy hunangwblhau ar-lein yn hytrach na'r dull gweinyddu gan gyfwelydd wyneb-yn-wyneb a ddefnyddiwyd yn 2018 a 2019. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o ymchwil rhianta a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2013. Ceir rhestr o adroddiadau yn Atodiad A.

1.9 Roedd yr holiadur ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau am agweddau tuag at smacio, ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol ac ymwybyddiaeth a barn am newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Cafodd cwestiynau demograffig eu cynnwys hefyd fel arfer safonol yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr ac mae i'w gael yn Atodiad B ar ddiwedd y ddogfen hon.

1.10 Sylwer efallai na fydd canrannau mewn rhai graffiau a thablau yn yr adroddiad hwn, lle gall yr ymatebydd ddewis un ateb yn unig, yn gwneud cyfanswm o 100% ac y gallant wneud cyfanswm o 99% neu 101% o ganlyniad i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Er enghraifft, efallai y bydd graff yn dangos tri ateb – 40%, 33% a 26% (sy'n gwneud cyfanswm o 99%) pan allai'r canrannau heb eu talgrynnu fod yn 40.4%, 33.3% a 26.3% yn y drefn honno.

[4] System ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth prif enillydd incwm yr aelwyd yw gradd gymdeithasol.

### 1.4 Profion ystadegol


1.11 Drwy’r adroddiad hwn dygir cymariaethau rhwng gwahanol grwpiau o’r boblogaeth (er enghraifft, y rhai o wahanol grwpiau oedran neu ryw) i ddeall a yw eu hagweddau, eu hymddygiadau neu eu gwybodaeth yn amrywio. Ceir cymariaethau hefyd rhwng gwahanol flynyddoedd yr arolwg i ganfod a fu newidiadau dros amser. Mae’r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau rhwng grwpiau o’r boblogaeth a hefyd i gymharu canlyniadau dros amser. Lle nodir bod gwahaniaeth rhwng dau grŵp neu ddau gyfnod o amser yn ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad drwy siawns yn llai nag un mewn 20 ac felly y gellir ei gyffredinoli i’r boblogaeth ehangach.

# 2. Agweddau tuag at smacio

2.1 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*. Roedd y farn ynglŷn â hyn ar draws saith ton yr arolwg wedi'i hollti, i ryw raddau, er bod mwy yn anghytuno â'r datganiad hwn nag oedd yn cytuno ag ef ym mhob ton.

2.2 Yn yr arolwg diweddaraf, roedd 29% yn cytuno a 54% yn anghytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn'. Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfrannau a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r datganiad bron yr un fath ag arolwg 2023 (29% a 55%) ond yn llai na'r arolygon a gynhaliwyd yn 2022. Er enghraifft, o'i gymharu â ffigyrau mis Mawrth 2022 (23% yn cytuno, 62% yn anghytuno) a gymerwyd yn union cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, mae'r gwahaniaeth ym mhatrwm y canlyniadau rhwng y cyfnod hwn a mis Tachwedd 2024 yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

### Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024)





Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), Maw 2022 (1,000), Tach 2022 (1,000), Tach 2023 (1,000), Tach 2024 (1,000)

2.3 Roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed neu iau, sef rhieni, gwarcheidwaid neu aelodau eraill o'r teulu sy'n rhoi gofal rheolaidd, yn fwy tebygol o anghytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' – 63% o'i gymharu â

52% ymhlith y rhai heb gyfrifoldebau gofalu am blant saith oed neu iau (ffigur 2.2). Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg ymhlith y rhai â chyfrifoldebau gofalu / heb gyfrifoldebau gofalu am blant dan saith oed ym mis Tachwedd 2023 a thonnau blaenorol eraill yr arolwg.


### Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb a pha un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau - Tachwedd 2024)




Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (320), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (673)

2.4 Fel a ddangosir yn Ffigur 2.3, pan ydym yn archwilio hyn yn ôl oedran yr ymatebydd, rydym yn canfod bod y rhai yn y grŵp oedran hŷn (55+) yn fwy tebygol o gytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ na grwpiau oedran eraill – 35% o’i gymharu â 27% ar gyfer pobl 35-54 oed a 23% ar gyfer pobl 16-34 oed. Er ei fod yn llai amlwg nag yn ôl oedran, canfuwyd gwahaniaeth barn yn ôl y rhywiau hefyd gyda 33% o ddynion yn cytuno â’r datganiad o’i gymharu â 26% o fenywod. Roedd y gwahaniaethau a nodwyd yn ôl oedran a’r rhywiau yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli’r canfyddiadau i’r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg yn ôl oedran a’r rhywiau yn 2023, 2022 ac yn 2021.


**Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb ac yn ôl y rhywiau a grwpiau oedran – Tachwedd 2024)**




Sail: Pawb (1,000), Dynion (421), Menywod (576), 16-34 (3345), 35-54 (359), 55+ (295)

2.5 Mae Ffigur 2.4 yn dangos canfyddiadau ar gyfer yr un mesur yn ôl gradd gymdeithasol. Roedd barn y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1[5] yn debyg i farn y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE yn yr ystyr nad oedd unrhyw wahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae hyn yn cyfnerthu'r un canfyddiad o'r holl arolygon blaenorol o 2019 ymlaen.

### Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Tachwedd 2024)




Sail: Pawb (1,000), ABC1 (607), C2DE (393)


[5] Ceir diffiniadau o raddau cymdeithasol A, B, C1, C2, D, E yn Atodiad E

# 3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol

3.1 Y sefyllfa gyfreithiol o ran smacio plant neu gosbi plant yn gorfforol mewn ffordd arall yng Nghymru ar adeg yr arolwg hwn (4 – 24 Tachwedd 2024) oedd bod rhieni ac oedolion sy'n gweithredu *in loco parentis* (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant) ddim yn gallu defnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin. Nid yw rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol yn gallu defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiadau o greulondeb, clwyfo neu ymosodiadau sy'n achosi gwir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro fel a ganlyn: "er bod unrhyw anaf sy'n fwy nag 'anaf dros dro neu fân anaf' yn gallu cael ei ystyried yn wir niwed corfforol, y cyhuddiad priodol fydd Ymosod Cyffredin lle nad oes unrhyw anaf yn digwydd neu lle ceir anafiadau nad ydynt yn ddifrifol".

3.2 Roedd cyfanswm o 87% o bobl a arolygwyd ym mis Tachwedd 2024 yn meddwl yn gywir nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant. Dim ond 9% oedd yn meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio a dywedodd y 4% sy'n weddill nad oeddent yn siŵr. Fel a ddangosir yn ffigur 3.1, hyd yn oed cyn y newid yn y gyfraith roedd mwyafrif o'r cyhoedd yn credu nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant. Mae'r gyfran hon wedi tyfu'n gyson dros amser gan gyrraedd ei huchafbwynt yn arolygon 2022/2023 ar 90%. Mae canfyddiad yr arolwg diweddaraf (87%) yn ostyngiad o'r uchafbwynt hwn ac mae'r gwahaniaeth rhwng cyfnodau'n arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 3.1: Y ganran a oedd yn credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, Tach 2023, Tach 24)**





Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000) Maw 2022 (1,000), Tach 2022 (1,000), Tach 2023 (1,000), Tach 2024 (1,000)

3.3 Roedd y rhai heb gyfrifoldebau gofalu'n fwy tebygol o fod yn ymwybodol nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant na'r rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau (89% o'i gymharu ag 84%). Mae'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

3.4 Mae hyn yn cyferbynnu â blynyddoedd blaenorol yr arolwg pan nad oedd rhyw lawer o wahaniaeth ar y mesur hwn rhwng gofalwyr am blant saith oed neu iau a'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn.


**Ffigur 3.2: Y ganran a oedd yn credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Tachwedd 2024)**




Sail: Pawb – Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (320), DDIM yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (673)

3.5 Roedd y mwyafrif llethol o ddynion a menywod a phob grŵp oedran yn ymwybodol nad yw'r gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant. Fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth ar ei huchaf ymhlith menywod (90% o'i gymharu ag 84% o ddynion) a'r rhai 55+ oed (90% o'i gymharu ag 81% o'r rhai 16-34 oed). Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg ym mis Tachwedd 2023 hefyd.


### Ffigur 3.3: Y ganran a oedd yn credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl y rhywiau ac yn ôl grŵp oedran - Tachwedd 2024)




Sail: Pawb (1,000), Dynion (421), Menywod (576), 16-34 (345), 35-54 (359), 55+ (295)

3.6 Nid yw gwybodaeth am y gyfraith ar smacio'n amrywio yn ôl gradd gymdeithasol gydag 87% o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 ac o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE yn credu nad yw'n cael ei ganiatáu. Mae hyn yn gyson ag arolwg 2023.

### Ffigur 3.4: Y ganran a oedd yn credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Tachwedd 2024)





Sail: Pawb (1,000), ABC1 (607), C2DE (393)

# 4. Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r ddeddfwriaeth

4.1 Yn yr arolwg diweddaraf, dywedodd 7 ymhob 10 (70%) o'r bobl a arolygwyd eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar lefel ddigymell[6]. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu dwy ran o dair (66%) a oedd yn ymwybodol ym mis Tachwedd 2023. Nid yw'r ymwybyddiaeth hon o'r newid ers mis Tachwedd 2023 yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024)**





Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), Maw 2022 (1,000), Tach 2022 (1,000), Tach 2023 (1,000), Tach 2024 (1,000)

[6] Ni chafodd yr ymatebwyr unrhyw fanylion ar gyfer newidiadau posibl ar yr adeg hon a gofynnwyd iddynt - 'Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf?'. Cafodd y cwestiwn hwn ei ddiwygio ychydig ym mis Tachwedd 2024 i gynnwys 'yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf' gan bod y gyfraith newydd wedi bod mewn grym am hynny o amser. Ym mis Tachwedd 2023, y cwestiwn oedd 'Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn y 2 flynedd ddiwethaf?'.

4.2 Roedd ymwybyddiaeth o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol ychydig yn uwch ymhlith gofalwyr am blant saith oed neu iau na'r rhai a oedd heb y cyfrifoldebau hyn – 75% o'i gymharu â 69% (ffigur 4.2). Nid oedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly ni ellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Mae hyn yn debyg i'r canfyddiad ym mis Tachwedd 2023.


### Ffigur 4.2: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio – Tachwedd 2024)




Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (316), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (680)

4.3 Fel a ddangosir yn ffigur 4.3, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth ymhlith gwahanol grwpiau gradd gymdeithasol (71% o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1, 69% o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE) ac mae hyn yn cyfnerthu'r canfyddiadau o arolygon 2022 a 2023. Nid oedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly ni ellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol – Tachwedd 2024)**




Sail: Pawb (1,000), 16-34 (345), 35-54 (359), 55+ (295), ABC1 (607), C2DE (393)

4.4 Roedd ymatebwyr iau sy'n 16-34 oed yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid yn y ddeddfwriaeth na'r rhai yn y grwpiau oedran hŷn, sef 35-54 a 55+ oed (57% o'i gymharu â 70% a 78%). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg mewn arolygon blaenorol hefyd.

4.5 Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth (685 o ymatebwyr) ddisgrifio yn eu geiriau eu hunain sut yr oeddent yn meddwl bod y gyfraith wedi newid. Wedyn cafodd eu hymatebion eu grwpio'n themâu ac fe'u dangosir yn nhabl 4.1. Yr ymateb mwyaf mynych o bell ffordd oedd bod 'smacio / cosbi'n gorfforol wedi cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ ei fod yn anghyfreithlon'. Fe wnaeth y mwyafrif llethol (85%) o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newid grybwyll hyn yn ddigymell.

**Tabl 4.1: Allwch chi ddweud wrthyf sut y mae'r gyfraith wedi newid yn eich tyb chi? - Tachwedd 2024 [Digymell]**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr (Nifer yr ymatebwyr) |
|---|---|
| Smacio \ cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon | 85 (*n.592)* |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae newid yn cael ei drafod - amhenodol | |
| Syniad da \ ddim yn cytuno â smacio \ er gwell | |
| Mae ['r gyfraith] wedi mynd yn fwy llym | |
| Ddim yn gallu cael ei ddefnyddio fel amddiffyniad cyfreithiol mwyach | |
| Dim cyswllt corfforol o gwbl | |
| Cosbau i'r rhai sy'n smacio plant | |
| Wedi gweld rhywbeth \ clywed rhywbeth amdano – amhenodol | |
| Cyfraith dwp \ ni ddylai'r llywodraeth ymhél â'r mater \ sylw negyddol arall am y gyfraith | |
| Roeddwn i'n meddwl bod smacio eisoes yn anghyfreithlon | |
| I amddiffyn plant | |

Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (685)
(a) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor

4.6 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai a ganfuwyd mewn arolygon blaenorol yn yr ystyr mai 'Smacio \ cosbi'n gorfforol wedi cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ ei fod yn anghyfreithlon*'* oedd yr ateb a grybwyllwyd fynychaf o bell ffordd o 2018 i 2023 er bod y gyfran sy'n dweud hyn wedi cynyddu dros amser cyn gwastatau yn nhonnau diweddar yr arolwg (64%, 69%, 73%, 84%, 89%, 88%, 90% ac yn olaf 85% yn 2024).

4.7 Gofynnwyd hefyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddweud sut yr oeddent wedi dod yn ymwybodol o'r newid (tabl 4.2). Yn yr arolwg diweddaraf, Ar y teledu – newyddion \ rhaglen yw'r ffynhonnell ymwybyddiaeth a grybwyllwyd fynychaf o hyd (53% yn crybwyll hynny). At ei gilydd, mae'r ffynonellau ymwybyddiaeth o'r newid a enwyd yn arolwg mis Tachwedd 2024 yn cael eu crybwyll ar lefelau tebyg i'r arolwg blaenorol ym mis Tachwedd 2023. Y prif eithriad oedd cynnydd yn yr arolwg diweddaraf ar gyfer Ar y radio – newyddion / rhaglen (19% o'i gymharu ag 14% yn 2023).

**Tabl 4.2: Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol? - Tachwedd 2024**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr (Nifer yr ymatebwyr)** |
|---|---|
| Ar y teledu – newyddion \ rhaglen | 53 (*n.372)* |
| Ar y radio – newyddion \ rhaglen | 19 (*n.135)* |
| Hysbyseb ar y teledu | 19 (*n.131)* |
| Dywedodd rhywun wrthyf (teulu \ ffrindiau) | 17 (*n.117)* |
| Gwefan ar-lein – eitem newyddion | 16 (*n.108)* |
| Y cyfryngau cymdeithasol (heblaw Facebook) | 13 (*n.90)* |
| Facebook | 12 (*n.86)* |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - newyddion \ erthygl | 11 (*n.78)* |
| Radio - hysbyseb | 11 (*n.77*) |
| Papur newydd lleol - newyddion \ erthygl | 10 (*n.73*) |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - newyddion \ erthygl | 10 (*n.70*) |
| Hysbyseb ar-lein | 8 (*n.53*) |
| Dywedodd rhywun wrthyf (gweithiwr proffesiynol) | 6 (*n.44)* |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - hysbyseb | 5 (*n.37*) |
| Gwefan ar-lein - arall | 5 (*n.35*) |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Taflen drwy'r drws | |
| Papur newydd lleol - hysbyseb | |
| Cylchgrawn | |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - hysbyseb | |
| Trwy'r gwaith / addysg | |

Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (685)


(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb

(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor

4.8 Ar ôl i ni ofyn am eu hymwybyddiaeth ar lefel ddigymell, cyflwynwyd disgrifiad o'r newid deddfwriaethol (sydd i'w weld yn Atodiad D) i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am hyn. O gael eu harwain fel hyn, dywedodd mwy o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth nag a wnaeth ar lefel ddigymell (gweler ffigur 4.1). Roedd cyfanswm o 83% yn gwybod rhywbeth am y newid a hynny'n cynnwys 53% a ddywedodd eu bod yn ymwybodol ohono a 31% a oedd yn ymwybodol ond nad oeddent yn siŵr o'r manylion.

4.9 Mae'r ffigwr hwn yn debyg i ganfyddiadau mis Tachwedd 2022 a 2023 (85%, 83% yn ymwybodol yn y drefn honno) ac yn cynrychioli patrwm o wastatau ar ôl cyfnod rhwng 2020 a 2022 pan gynyddodd ymwybyddiaeth (o 44% i 85%)


**Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024)**




Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), Maw 2022 (1,000), Tach 2022 (1,000), Tach 2023 (1,000)

4.10 O gael eu harwain fel hyn roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed neu iau yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth na'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn – 87% o'i gymharu ag 82% (ffigur 4.5). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach. Adroddwyd ar wahaniaeth tebyg yn arolwg mis Tachwedd 2023 hefyd.


**Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Tachwedd 2024)**




Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (320), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (673)

4.11 Fel yr oedd hi mewn arolygon blynyddol roedd y rhai 16-34 oed yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth o gael eu harwain fel hyn – 77% o'i gymharu ag 85% ac 86% o'r rhai 35-54 a 55+ oed yn y drefn honno. Roedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach. Fel yr oedd hi yn 2023, nid oedd gwahaniaeth o'r fath yn amlwg yn ôl gradd gymdeithasol gyda lefelau ymwybyddiaeth ymhlith y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 a C2DE yn debyg iawn – 84% ac 83% yn y drefn honno. Wrth edrych ar y canlyniadau o'r ddau arolwg diwethaf gwelir bod y gwahaniaeth rhwng grwpiau graddau cymdeithasol wedi lleihau ar y mesur hwn ar gyfer ymwybyddiaeth o gael eu harwain. Yn 2022, wyth pwynt canran oedd y gwahaniaeth (89% ar gyfer y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 ac 81% ar gyfer y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE) ac roedd hwn yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 4.6: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol - Tachwedd 2024)**





Sail: Pawb (1,000), 16-34 (345), 35-54 (359), 55+ (295), ABC1 (607), C2DE (393)

4.13 A hwythau wedi cael eu hysbysu bod y gyfraith wedi newid (Atodiad D), gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn meddwl bod unrhyw lefelau o gosb (a ddangosir yn ffigur 4.7) yn dal i gael eu caniatáu. Roedd cyfanswm o 15% yn meddwl y byddai cosb gorfforol oedd ‘ddim yn gadael unrhyw farc o gwbl’ ar y plentyn yn dal i gael ei chaniatáu. Mae hyn wedi cynyddu dros amser – yn 2022, 9% oedd y ffigwr cyfatebol ac mae’r gwahaniaeth hwn (o’i gymharu â 2024) yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli’r canfyddiadau i’r boblogaeth ehangach.

4.14 Dim ond cyfrannau bach iawn oedd yn meddwl y byddai lefelau uwch o gosb gorfforol megis rhywbeth sydd ‘yn achosi i’r croen gochi dros dro’ (5%), ‘yn gadael clais sy’n para am ychydig ddyddiau’ (2%) neu ‘yn gadael marciau neu gleisiau sy’n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond ddim yn arwain at anaf corfforol parhaol’ (3%) yn dal i gael eu caniatáu. Ar y cyfan, roedd ychydig o dan dri chwarter (74%) yn meddwl nad oedd yr un o'r lefelau hyn o gosb yn cael ei chaniatáu yn dilyn y newid yn y gyfraith. Mae hyn yn is na phan ofynnwyd y cwestiwn gyntaf ym mis Tachwedd 2022 (80%). Mae’r canfyddiad hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli’r canfyddiadau i’r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.7: Y ganran a oedd yn meddwl y byddai pob lefel o gosb yn dal i gael ei chaniatáu ar ôl y newid i'r gyfraith – Tach 2022, 2023, 2024**




Sail: Pawb – Tach 2022 (1,000), Tach 2023 (1,000), Tach 2024 (1,000)


# 5. Barn am y newidiadau i'r ddeddfwriaeth

5.1 A hwythau wedi cael gweld y disgrifiad o'r newid, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol, a oeddent yn ei erbyn neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i allu penderfynu. Fel a ddangosir yn ffigur 5.1, yn yr arolwg diweddaraf roedd bron i 55% o blaid ddiddymu amddiffyniad cosb resymol. Mae'r lefel hon o gefnogaeth i'r newid yn y gyfraith yn debyg i arolygon diweddar a gynhaliwyd yn union cyn ac ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

5.2 Mae'r lefelau hyn o gefnogaeth ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym yn sylweddol uwch na lefelau cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym – yn 2020, dim ond 38% ddywedodd eu bod o blaid. Yn ddiddorol, nid yw'r newidiadau yn y rhai o blaid dros y cyfnod hwn yn cael eu hadlewyrchu gan y rhai sy'n dweud eu bod yn erbyn y ddeddfwriaeth. Mae'r gwrthwynebiad yma i'r newid wedi aros yn gymharol gyson ar oddeutu 20-26% o'r boblogaeth ers 2020.

5.3 Felly, mae'r newid mewn cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth dros amser i'w briodoli'n bennaf i newidiadau yn y cyfrannau a ddywedodd fod 'angen rhagor o wybodaeth' arnynt neu eu bod 'ddim yn siŵr' o'u barn.


**Ffigur 5.1: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, Maw 2022, Tach 2022, 2023, 2024)**




Sail: Pawb - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), Maw 2022 (1,000), Tach 2022 (1,000), 2023 (1,000), 2024 (1,000)

5.4 Roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau yn fwy tebygol o fod o blaid y newid arfaethedig (67% o blaid, 21% yn erbyn) o'i gymharu â'r rhai a oedd heb y cyfrifoldebau hyn (50% o blaid, 27% yn erbyn). Roedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 5.2: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio – Tachwedd 2024)**




Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (320), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (673)

5.5 Canfuwyd gwahaniaethau barn yn ôl oedran hefyd. Yn y grwpiau oedran 16-34 a 35-54, roedd ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o *fod o blaid* yn hytrach nag yn erbyn y newid i'r ddeddfwriaeth, fel a ddangosir yn ffigur 5.3. Fodd bynnag, ymhlith y rhai 55+ oed roedd y farn ychydig yn fwy cymysg gyda 45% o blaid y newid ac oddeutu traean (34%) yn ei erbyn. Roedd y gwahaniaethau hyn yn ôl oedran yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg yn ôl oedran yn yr holl arolygon blaenorol hefyd.


### Ffigur 5.3: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl grŵp oedran - Tachwedd 2024)




Sail: Pawb (1,000), 16-34 (345), 35-54 (359), 55+ (295)

5.6 Yn arolwg mis Tachwedd 2024 canfuwyd gwahaniaethau hefyd yn ôl y rhywiau o ran barn ymatebwyr am y newid deddfwriaethol. Roedd menywod yn llawer mwy tebygol o fod o blaid y newid (56%) nag yn ei erbyn (22%). Er bod mwy o ddynion o blaid y newid nag oedd yn ei erbyn, roedd y bwlch rhwng y ddwy gyfran yn gulach (54% o blaid, 30% yn erbyn). Mae'r gwahaniaethau hyn o ran y rhywiau'n arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg rhwng barn dynion a menywod ynglŷn â hyn yn nhonnau blaenorol yr arolwg.

### Ffigur 5.4: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl y rhywiau - Tachwedd 2024)




Sail: Pawb (1,000), Dynion (421), Menywod (576)

5.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro'u rhesymau dros eu barn ynglŷn â'r newid deddfwriaethol. Eto, roedd hyn yn eu geiriau hwy eu hunain ac mae'r ymatebion wedi cael eu grwpio'n themâu cyffredin. Mae Tabl 5.1 yn dangos y rhesymau a nodwyd dros fod o blaid y newid (578 o ymatebwyr). Yr ymateb mwyaf mynych oedd eu bod 'ddim yn cytuno â smacio neu gosbi plant yn gorfforol' (41% o'r rhai a oedd o blaid y newid). Hwn oedd yr ymateb mwyaf mynych yn yr holl arolygon blaenorol hefyd.

5.8 Y prif resymau eraill a grybwyllwyd oedd bod 'ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da' (18%), bod '[smacio] yn niweidiol i blant' (11%) ac y bydd [y newid yn y ddeddfwriaeth] yn helpu i amddiffyn plant' (10%).

**Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? - Tachwedd 2024 [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr (Nifer yr ymatebwyr)** |
|---|---|
| Ddim yn cytuno â smacio \ cosbi plant yn gorfforol | 41 (*n.226*) |
| Mae ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da \ disgyblaeth | 18 (*n.98*) |
| Mae'n niweidiol i blant | 11 (n.60) |
| Bydd yn helpu i amddiffyn plant | 10 (*n.57*) |
| Cam-drin ydyw \ gall arwain at gam-drin | 7 (*n.40*) |
| Mae rhai rhieni'n mynd yn rhy bell | 6 (*n.35*) |
| Nid yw'n wers dda | 6 (*n.32*) |
| Nid yw'n gweithio \ nid yw'n angenrheidiol | 5 (*n.30*) |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae tap yn iawn \ slap fach \ iawn os nad yw rhywun yn mynd yn rhy bell | |
| Cefais i fy nharo pan oeddwn yn blentyn | |
| Mae'n rhoi anogaeth i ddefnyddio trais \ mae'n gwneud trais yn dderbyniol | |
| Mae ei angen | |
| Gwneud pethau'n fwy clir \ rhieni'n gwybod ble maen nhw'n sefyll | |
| Dydw i erioed wedi smacio fy mhlant | |

Sail: Y rhai sydd o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (578)
(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb
(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor

5.9 O'r rhai a oedd yn erbyn y newid i'r ddeddfwriaeth (228 o ymatebwyr), un o'r prif resymau dros wrthwynebu'r newid, a roddwyd gan oddeutu traean (33%) o'r ymatebwyr, oedd bod 'angen (rhyw fath o gosb gorfforol) i reoli ymddygiad \ disgyblu'r plentyn \ addysgu am barch \ dangos ffiniau'. Fe wnaeth rhai sylwadau am y diffyg disgyblaeth ehangach mewn cymdeithas – 'does dim disgyblaeth \ parch y dyddiau hyn \ mae plant yn ymddwyn yn wael' (26%).

5.10 Myfyriodd eraill ynghylch eu profiadau hwy eu hunain gan ddweud eu bod yn erbyn y newid am 'nad yw [smacio] yn gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw niwed i mi \ i'm plant i' (15%). Fe wnaeth rhai amodi eu gwrthwynebiad i'r newid gan ddweud y byddent hwy yn ei erbyn cyn belled â bod y gosb yn aros yn un 'nad yw'n mynd yn rhy bell \ os yw'n gosb resymol' (24%).

5.11 Mae'r rhesymau hyn a'r cyfrannau a'u nododd (ymhlith y rhai a oedd yn erbyn y newid i'r ddeddfwriaeth) yn adlewyrchu canlyniadau a ganfuwyd mewn arolygon blaenorol.

### Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? - Tachwedd 2024 [Digymell]

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr (Nifer yr ymatebwyr)** |
|---|---|
| Mae ei angen i reoli ymddygiad \ disgyblu'r plentyn \ addysgu am barch \ dangos ffiniau | 33 (*n.84)* |
| Does dim disgyblaeth y dyddiau hyn \ mae plant yn ymddwyn yn wael \ dim parch | 26 (*n.67)* |
| Mae'n iawn os nad yw'n mynd yn rhy bell \ os yw'n gosb resymol | 24 (*n.62)* |
| Nid yw'n gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw ddrwg i mi \ i'm plant i | 15 (*n.39)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Anodd i'w blismona \ i'w orfodi \ i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | |
| Mae pob amgylchiad \ plentyn yn wahanol | |
| Ni ddylai'r Llywodraeth ymhél â'r mater | |
| Mae'r gyfraith yn iawn ar hyn o bryd \ nid oes angen cyfraith newydd | |
| Nid oes mo'i angen | |
| Iawn pan fo'r plentyn mewn perygl | |
| Dros ben llestri \ ddim yn rhesymol | |
| Dylai rhiant gael cosbi ei blentyn \ dylai fod â dewis \ dylai gael gwneud y penderfyniad | |
| Ni ddylid ei droseddoli | |
| Ei ddefnyddio fel dewis olaf | |

Sail: Y rhai sydd yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (228)
(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb
(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor

5.12 O ran y rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth cyn penderfynu, a oedd yn rhoi cyfrif am 16% (162 o ymatebwyr), fel mewn arolygon blaenorol, yn bennaf roedd arnynt eisiau naill ai rhagor o fanylion neu wybodaeth ynglŷn â sut y byddai'n gweithio (22% o'r rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth) neu'n benodol hoffent pe bai mwy o eglurder yn y diffiniadau a oedd yn rhan o'r ddeddfwriaeth:

- Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu (16%)
- Diffiniad o gosb resymol (14%)
- Diffiniadau \ enghreifftiau (13%)

5.13 Rheswm pellach dros fod eisiau rhagor o wybodaeth cyn eu bod yn penderfynu oedd bod arnynt eisiau gweld ymchwil / tystiolaeth o effaith smacio (13%).

## Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? – Tachwedd 2024 [Digymell]

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr (Nifer yr ymatebwyr) |
|---|---:|
| Rhagor o fanylion \ rhagor o wybodaeth \ gwybodaeth am y gyfraith bresennol \ sut y byddai'n gweithio | 22 (*n.35)* |
| Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu | 16 (*n.25)* |
| Diffiniad o gosb resymol | 14 (*n.22)* |
| Diffiniadau \ enghreifftiau | 13 (*n.22)* |
| Ymchwil \ tystiolaeth o effaith smacio | 13 (*n.21)* |
| Gwybodaeth am y gyfraith bresennol | 6 (*n.9)* |
| Ddim yn gwybod | 11 (*n.17)* |

| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** |
|---|
| Sut y bydd yn cael ei blismona \ ei orfodi \ sut i ddarparu adnoddau ar ei gyfer |
| Angen amser i feddwl amdano \ rhagor o amser i feddwl amdano |
| Cosb \ cyhuddiadau i rieni |
| Diogelu \ amddiffyn rhieni |

Sail: Y rhai y mae angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu a ydynt o blaid ynteu yn erbyn newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (162)

(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb

(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor

# 6. Casgliadau

6.1 Ym mis Tachwedd 2024, er bod mwyafrif o'r cyhoedd yn anghytuno (54%) 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' mae hyn yn is na'r lefel uchaf o anghytundeb ym mis Mawrth 2022 (62%) yn union cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'r farn yn dal i fod yn gysylltiedig ag oedran gyda'r rhai dros 55 oed yn llawer mwy tebygol o gytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn'.

6.2 Gyda'r ddeddfwriaeth wedi bod mewn grym am y 32 mis diwethaf, roedd cyfran y boblogaeth sy'n credu bod rhieni'n dal i allu smacio'u plant yn lleiafrif bach (9%). Fodd bynnag, dywedodd cyfran ychydig yn fwy (15%) eu bod yn meddwl y byddai smacio nad oedd yn gadael marc coch yn cael ei ganiatáu. Mae'r ddau ffigwr yn gynnydd o'i gymharu ag arolwg 2023.

6.3 Mae ymwybyddiaeth bod newidiadau wedi digwydd i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn dal i fod yn gyson â thonnau blaenorol yr arolwg a gynhaliwyd yn union cyn neu ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Pan ofynnwyd iddynt yn ddigymell a oeddent yn ymwybodol o'r newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol, dywedodd 7 ymhob 10 (70%) eu bod yn gwybod am rywbeth. Roedd y lefelau mwy gwastad hyn yn lefelau'r ymwybyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn cynnydd cryf yn y blynyddoedd cyn hyn (roedd ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig yn 27% ym mis Tachwedd 2020).

6.4 Mae ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth o gael eu harwain yn dilyn patrwm tebyg i'r mesur digymell gyda lefelau'n sefydlogi dros y blynyddoedd diwethaf (85%, 83% ac 84% yn y tri arolwg diweddaraf) yn dilyn twf cryf mewn ymwybyddiaeth yn y blynyddoedd cyn hyn. Mae lefelau'r ymwybyddiaeth, fel mewn arolygon blaenorol, yn dal i fod yn is ymhlith y rhai heb gyfrifoldebau gofalu am blant 7 oed neu iau a'r rhai 16-34 oed.

6.5 Mae'r gyfran sydd o blaid diddymu amddiffyniad cosb resymol wedi aros yn gymharol gyson mewn arolygon diweddar hefyd – 55% yn 2024 a chan amrywio rhwng 53% a 59% yn y tair blynedd cyn hynny. Mae hyn yn dilyn cynnydd yn y

gefnogaeth a gofnodwyd rhwng mis Tachwedd 2020 (38% o blaid) ac ym mis Mawrth 2022 (59% o blaid).

6.6 Er bod y gyfran sydd o blaid y newid wedi newid dros amser, yn enwedig yn dilyn cyflwyno’r ddeddfwriaeth, mae’r rhai sy’n dal i wrthwynebu’r newid wedi bod yn sefydlog (26% ym mis Tachwedd 2024 o’i gymharu â 25% ym mis Tachwedd 2020) gan awgrymu bod grŵp a fydd yn ei chael hi’n anodd cael eu hargyhoeddi o’r newid. Mae’r rhai sy’n gwrthwynebu’r newid yn fwy tebygol o fod yn ddynion, yn y grwpiau oedran hŷn (55+) a heb gyfrifoldebau gofalu am blant 7 oed ac iau fel y bu hi yn nhonnau blaenorol yr arolwg.

# Atodiad A - Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta

Isod nodir cyhoeddiadau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar rianta a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru dros y deng mlynedd ddiwethaf.

**Ymchwil Flaenorol Berthnasol gan Lywodraeth Cymru:**

**Agweddau tuag at arferion rhianta a disgyblu plant.** Cyhoeddwyd: 2014

Dull a Sampl:

- Ansoddol
- 14 o grwpiau ffocws (70 o gyfranogwyr)
- Rhieni plant dan 18
- Yn 2013

Diben: Archwilio barn rhieni am arfer rhianta gan gynnwys disgyblu. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta

**Rheoli ymddygiad, agweddau ac arferion plant: Arolwg Sylfaenol 2013**. Cyhoeddwyd: 2014

Dull a Sampl:

- Arolwg Omnibws Meintiol
- 1,022 o oedolion (56% wedi bod yn rhieni erioed, 27% yn rhieni i blant dan 18)
- Yn 2013

Diben: Casglu data ar agweddau’r cyhoedd (gan gynnwys rhieni ac oedolion nad ydynt yn rhieni) tuag at arferion rhianta gan gynnwys disgyblaeth. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta.

**Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2015.** Cyhoeddwyd: 2016.

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg ffôn
- 387 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed
- Gan ddefnyddio rhestr ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Yn 2015

Diben: Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Gwaith maes a gyflawnwyd cyn lansio'r ymgyrch cymorth rhianta 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo'

**Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2017**. Cyhoeddwyd: 2018

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg ffôn
- 269 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed
- Gan ddefnyddio arolwg ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Yn 2017

Diben: Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Roedd yr arolwg hwn fwy neu lai'n ailadrodd ymchwil flaenorol yn 2015 ac fe helpodd i oleuo'r gwaith paratoadol ar gyfer y cynnig i wahardd cosb gorfforol.

**Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg sylfaenol, 2018**. Cyhoeddwyd: 2019

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb
- 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed
- Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort
- Yn 2018

Diben: Arolwg sylfaenol ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn.

**Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 2, 2019**. Cyhoeddwyd: 2021

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb
- 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed
- Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort
- Yn 2019

Diben: Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i

ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolwg sylfaenol a gynhaliwyd yn 2018

**Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 3, 2020**. Cyhoeddwyd: 2021

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg ar-lein
- 1,002  o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed
- Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort
- Yn 2020

Diben: Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018 a 2019.

**Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 4, 2021.** Cyhoeddwyd: 2023

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg ar-lein
- 1,000  o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed
- Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort
- Yn 2021

Diben: Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018, 2019 a 2020.

**Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 5, 2021**. Cyhoeddwyd: 2023

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg ar-lein
- 1,000 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed
- Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort
- Ym mis Mawrth 2022

Diben: Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018, 2019, 2020 a 2021.

**Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg ton 6, Tachwedd 2022 | LLYW.CYMRU.** Cyhoeddwyd: 2023

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg ar-lein
- 1,000 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed
- Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort
- Ym mis Tachwedd 2022

Diben: Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018, 2019, 2020, 2021 a mis Mawrth 2022.

**Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg ton 7, Tachwedd 2023 | LLYW.CYMRU.** Cyhoeddwyd: 2024

Dull a Sampl:

- Meintiol – arolwg ar-lein
- 1,000 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed
- Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort

Ym mis Tachwedd 2023

Diben: Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018, 2019, 2020, 2021, mis Mawrth 2022 a mis Tachwedd 2022

# Atodiad B – Holiadur yr arolwg

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn?**
   Cytuno'n gryf
   Tueddu i gytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Tueddu i anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

2. **Ydych chi'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant?**
   Ydw
   Nac ydw
   Ddim yn gwybod

3. **Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf?**
   Ydw
   Nac ydw
   Ddim yn gwybod

**OS YDYCH**

*4.* **Allwch chi ddweud wrthyf sut y mae'r gyfraith wedi newid yn eich tyb chi?** Ysgrifennwch yr ateb

   ______________________________________________

**OS YDYCH**

5. **Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?** Dewiswch bob un sy'n berthnasol

   Ar y teledu – newyddion / rhaglen
   Ar y teledu – hysbyseb
   Ar y radio – newyddion / rhaglen
   Ar y radio – hysbyseb
   Mewn papur newydd lleol – newyddion / erthygl
   Mewn papur newydd lleol – hysbyseb
   Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – newyddion / erthygl
   Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – hysbyseb
   Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – newyddion / erthygl
   Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – hysbyseb

Hysbysebu ar-lein
Gwefan ar-lein – eitem newyddion
Gwefan ar-lein – arall
Y cyfryngau cymdeithasol (heb gynnwys Facebook)
Facebook
Mewn cylchgrawn
Dywedodd rhywun wrthyf (gweithiwr proffesiynol)
Dywedodd rhywun wrthyf (teulu/ffrind)
Arall (rhowch fanylion)

**Yng Nghymru, mae'r gyfraith mewn perthynas â chosbi'n gorfforol, gan gynnwys smacio, wedi newid. Yn flaenorol roedd rhieni'n gallu defnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. Ers 21 Mawrth 2022, nid yw amddiffyniad cosb resymol ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* ac sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Lle mae'r heddlu'n canfod digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o gael rhiant yn euog bydd rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.**

**GOFYNNWCH I BAWB**

6. **Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am newid y gyfraith o gwbl?**

   Ydw, rwy'n ymwybodol o'r newid
   Ydw – ond ddim yn siŵr o'r manylion
   Nac ydw
   Ddim yn gwybod

7. **Pa rai o'r datganiadau canlynol ynglŷn â newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau?**

   Rwyf o blaid newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
   Rwyf yn erbyn newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
   Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf i benderfynu
   Ddim yn gwybod

8. **a) Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?** Ysgrifennwch yr ateb

   ______________________________________________

**b) Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn erbyn newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?** Ysgrifennwch yr ateb

---

**c) Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen arnoch?** Ysgrifennwch yr ateb

---

**9. Yn awr bod y gyfraith wedi newid, pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi'n meddwl sy'n dal i gael eu caniatáu?**

Cosb gorfforol sydd:
Yn gadael dim marc o gwbl ar y plentyn
Yn achosi i'r croen gochi dros dro
Yn gadael clais sy'n para am ychydig ddyddiau
Yn gadael marciau a chleisiau sy'n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n arwain at anaf corfforol parhaol
Dim o'r rhain
Ddim yn gwybod
Wedi gwrthod

**Nodyn ar newidiadau i'r holiadur dros amser:**

Fe wnaed mân newidiadau i arolygon 2020, 2021 a mis Mawrth 2022 o'i gymharu ag arolygon 2018 a 2019, sef:

- Nid oedd cwestiynau 4, 6, 7 ac 8 yn dweud 'newidiadau arfaethedig' mwyach fel yr oeddent yn 2018 a 2019 am eu bod yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2020.
- Hefyd, yn 2020, 2021 a 2022 yng nghwestiwn 1, roedd 'ddim yn gwybod' yn god ymateb yr oedd pobl yn ei roi o gael eu harwain yn hytrach na dim ond cael ei gofnodi'n ddigymell yn 2018/2019 a oedd yn adlewyrchu'r newid dull o holiadur wyneb-yn-wyneb i holiadur ar-lein.
- Roedd yr un peth (ymateb gan bobl o gael eu harwain yn hytrach nag ymateb digymell) yn wir am gwestiwn 3 ar gyfer codau ymateb 'ddim yn gwybod' ac 'wedi gwrthod'.
- Hefyd (a chan eto adlewyrchu'r newid i ddull ar-lein), yng nghwestiwn 6 roedd ymatebwyr yn cael eu harwain â rhestr o ffynonellau ymwybyddiaeth yn 2020, 2021 a 2022 ond yn 2018/19 roedd y rhestr hon yn ddigymell.

Yn olaf, ac o ganlyniad i’r ffaith bod y ddeddfwriaeth wedi dod i rym, roedd arolygon mis Tachwedd 2022, mis Tachwedd 2023 a mis Tachwedd 2024 yn cynnwys rhai mân newidiadau pellach:

- C3 ‘Ydych chi’n ymwybodol o unrhyw newidiadau i’r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn y flwyddyn ddiwethaf?’. Cafodd y cwestiwn hwn ei ddiwygio ychydig ym mis Tachwedd 2022 i gynnwys ‘yn y flwyddyn ddiwethaf’ nawr bod y gyfraith newydd wedi bod mewn grym am sawl mis ar yr adeg hon.
- C3 ‘Ydych chi’n ymwybodol o unrhyw newidiadau i’r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn y 2 flynedd ddiwethaf?’. Cafodd y cwestiwn hwn ei ddiwygio ychydig ym mis Tachwedd 2023 i gynnwys ‘yn y 2 flynedd ddiwethaf’ nawr bod y gyfraith newydd wedi bod mewn grym am 20 mis ar yr adeg hon. Cafodd ei ddiwygio ymhellach i ‘ychydig flynyddoedd diwethaf’ ym mis Tachwedd 2024 i adlewyrchu newid yn y cyfnod o amser.
- Fe newidiodd C4 i sut y mae’r gyfraith ‘wedi newid’ yn hytrach na sut y ‘bydd yn newid’ ar rifynnau blaenorol.
- Roedd C6,7,8a/b yn cyfeirio at ‘newid y gyfraith’ yn hytrach na ‘newid i’r gyfraith’

Newid mwy sylweddol ym mis Tachwedd 2022 / Tachwedd 2023 oedd bod y cwestiwn am lefelau cosb a oedd yn cael eu caniatáu wedi newid o ‘Mae’r gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol (sy’n cynnwys smacio). Pa lefel o gosb mae’r gyfraith yn ei chaniatáu yn eich tyb chi? i Yn awr bod y gyfraith wedi newid, pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi’n meddwl sy’n dal i gael eu caniatáu?’ O ystyried bod hwn yn newid sylfaenol i’r cwestiwn nid yw’r data yma’n cael ei gyflwyno fel cyfres dros amser (yn ôl i 2018) yn yr adroddiad hwn mwyach.

# Atodiad C – Dull Ymchwil

A1.13 Cynhaliwyd yr ymchwil hon trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Mae arolygon omnibws yn ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf o gynnal ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol. Fel y mae eu henw'n ei awgrymu, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un cyfrwng arolygu, gan ddwyn budd o ran costau is.

A1.14 Mae sampl yr Arolwg Omnibws wedi'i bwriadu i gynrychioli'r boblogaeth oedolion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n 16 oed a throsodd. Fe wnaeth argyfwng iechyd y cyhoedd COVID-19 atal arolygon mis Tachwedd 2020, mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022 rhag cael eu cynnal yn y modd blaenorol trwy gyfweliadau wyneb-yn-wyneb mewn pwyntiau samplu penodol ledled Cymru. Yn lle hynny, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer arolygon mis Tachwedd 2020, mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022 ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint. Cynhaliwyd arolygon mis Tachwedd 2022, mis Tachwedd 2023 a mis Tachwedd 2024 ar-lein hefyd gan bod yr arolwg Omnibws wedi symud yn barhaol i ddull ar-lein.

A1.15 Mae platfform Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio ag amryw godau ymddygiad a chanllawiau megis safonau'r Gymdeithas Ymchwil Barn ac Ymchwil i'r Farchnad Ewropeaidd (ESOMAR) a'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS). Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Caiff sawl gwiriad ansawdd data eu cynnwys yn system Cint gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA wrth gofrestru, gwiriadau ar gyfer adnabod ymatebwyr unigryw ac i ganfod ymddygiad twyllodrus. Hefyd, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a mesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac nid yw'n cynnwys ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

A1.16 Yn ystod yr arolwg defnyddiwyd rheolaethau cwota pleth ar oedran o fewn rhyw. Yn ychwanegol at hynny, defnyddiwyd rheolaeth cwota ar wahân ar gyfer gradd gymdeithasol ac fe gynhaliwyd cyfweliadau gyda thrigolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

A1.17 Ar y cam dadansoddi, caiff y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn pob rhyw o fewn y grwpiad Awdurdod Lleol yn ogystal â gradd gymdeithasol i roi i bob

cell ei mynychder cywir o fewn cyfanswm Cymru sy’n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Cyflwynir y ffigyrau yn yr adroddiad hwn i’r ganran lawn agosaf.

**Samplu cwota cyfrannol**

A1.18 Pan gaiff data arolygon eu profi o safbwynt arwyddocâd ystadegol, gwneir tybiaeth bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o’r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan bod Arolwg Omnibws Cymru’n defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid hap-samplu), nid yw arwyddocâd ystadegol gwirioneddol yn gallu cael ei gadarnhau, a bod yn fanwl gywir. Felly, pan fo gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn cael ei ddisgrifio fel gwahaniaeth ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth sy’n arwyddocaol o safbwynt ffug-ystadegol ar y lefel hyder o 95 y cant. Ystyr hyn yw, pe bai’r arolwg yn defnyddio hap-sampl, y byddai’r tebygolrwydd o gael y canfyddiad trwy siawns yn llai nag un mewn 20.

**Dadansoddiad Chi-sgwâr**

A1.19 Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas yr arsylwyd arni rhwng dau neu fwy o newidynnau categoreiddiol yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth oedolion 16 oed a throsodd sy’n byw yng Nghymru).

# Atodiad D – Disgrifiad o’r newid i’r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i ymatebwyr yn arolwg mis Tachwedd 2024

Yng Nghymru, mae’r gyfraith mewn perthynas â chosbi’n gorfforol, gan gynnwys smacio, wedi newid. Yn flaenorol gallai rhieni ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. Ers 21 Mawrth 2022, nid yw amddiffyniad cosb resymol ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a’r rhai sy’n gweithredu in loco parentis ac sy’n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Lle mae’r heddlu’n canfod digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o gael rhiant yn euog bydd rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.

# Atodiad E – Diffiniad o raddau cymdeithasol

Mae Tabl A1.1, isod, yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o raddau cymdeithasol [7] a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad

### Tabl A1.1: Diffiniadau o raddau cymdeithasol

| Gradd gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol uchel |
| B | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol ganolradd |
| C1 | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol oruchwyliol, glerigol ac iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw crefftus |
| D | Gweithiwr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr radd isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

[7] Diffiniadau'r Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol - [Social Grade | National Readership Survey]

# Atodiad F – Meintiau is-samplau

Mae Tabl A1.2, isod, yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli.

## Tabl A1.2: Meintiau samplau'r is-grwpiau

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---|---|
| **Rhyw**[8] | | |
| Gwrywaidd | 421 | 483 |
| Benywaidd | 576 | 514 |
| **Oedran** | | |
| 16-34 | 345 | 279 |
| 35-54 | 359 | 298 |
| 55+ | 295 | 422 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 607 | 494 |
| C2DE | 393 | 506 |
| **Gofalwr am blentyn 7 oed neu iau**[9] | | |
| Ydy | 320 | 269 |
| Nac ydy | 673 | 724 |

[8] Mae cyfanswm y Dynion a'r Menywod yn 997. Roedd 3 ymatebydd a nododd 'arall' neu 'gwell gen i beidio â dweud' fel ateb hefyd

[9] Mae cyfanswm y gofalwyr am blentyn 7 oed neu iau yn 993. Roedd 7 ymatebydd a nododd 'gwell gen i beidio â dweud' fel ateb hefyd

# Atodiad G – Tablau cryno Ton 1 i 8

Mae testun y cwestiwn ar gyfer pob tabl yn seiliedig ar eiriad y cwestiwn yn Nhon 8 – gweler Atodiad B am fanylion unrhyw newidiadau i eiriad cwestiynau.

## Tabl A1.3: Cwestiwn: C1 I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn?

Sail: Yr holl ymatebwyr

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (1,002) | (1,002) | (1,002) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Cytuno’n gryf | 8 | 6 | 9 | 7 | 5 | 6 | 6 | 7 |
| Tueddu i gytuno | 27 | 25 | 25 | 23 | 18 | 21 | 23 | 22 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 13 | 12 | 18 | 16 | 15 | 14 | 15 | 16 |
| Tueddu i anghytuno | 14 | 18 | 17 | 19 | 22 | 18 | 21 | 19 |
| Anghytuno’n gryf | 35 | 37 | 30 | 34 | 40 | 40 | 35 | 36 |
| Ddim yn gwybod | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |

## Tabl A1.4: Cwestiwn: C2 Ydych chi’n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio’u plant?

Sail: Yr holl ymatebwyr

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (1,002) | (1,002) | (1,002) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ydw | 27 | 28 | 22 | 16 | 10 | 6 | 6 | 9 |
| Nac ydw | 58 | 55 | 68 | 78 | 84 | 90 | 90 | 87 |
| Ddim yn gwybod | 15 | 17 | 10 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 |

**Tabl A1.5: Cwestiwn: C3. Ydych chi’n ymwybodol o unrhyw newidiadau i’r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf?**

Sail: Yr holl ymatebwyr

| | **Ton 1** | **Ton 2** | **Ton 3** | **Ton 4** | **Ton 5** | **Ton 6** | **Ton 7** | **Ton 8** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (1,002) | (1,002) | (1,002) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ydw | 28 | 42 | 27 | 40 | 66 | 73 | 66 | 70 |
| Nac ydw | 68 | 53 | 66 | 52 | 32 | 23 | 26 | 25 |
| Ddim yn gwybod | 3 | 4 | 8 | 7 | 2 | 4 | 8 | 5 |

## Tabl A1.6: Cwestiwn: C4. Allwch chi ddweud wrthyf sut y mae'r gyfraith wedi newid yn eich tyb chi?

Sail: Pawb oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (297) | (421) | (261) | (393) | (668) | (733) | (655) | (685) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Smacio \ cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd yn gyfan gwbl | 73 | 69 | 64 | 64 | 89 | 88 | 90 | 85 |
| Mae newid yn cael ei drafod - amhenodol | <5 | <5 | <5 | <5 | - | - | <5 | <5 |
| Syniad da \ ddim yn cytuno â smacio \ er gwell | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Mae ['r gyfraith] wedi mynd yn fwy llym | - | - | - | - | - | <5 | <5 | <5 |
| Ddim yn gallu cael ei ddefnyddio fel amddiffyniad cyfreithiol mwyach | - | - | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Dim cyswllt corfforol o gwbl | - | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Cosbau i'r rhai sy'n smacio plant | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi gweld rhywbeth \ clywed rhywbeth amdano – amhenodol | <5 | <5 | <5 | - | <5 | - | <5 | <5 |
| Cyfraith dwp \ ni ddylai’r llywodraeth ymhél â’r mater \ sylw negyddol arall am y gyfraith | - | - | - | - | - | <5 | <5 | <5 |
| Roeddwn i’n meddwl bod smacio eisoes yn anghyfreithlon | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | - | <5 | <5 |
| I amddiffyn plant | - | - | - | - | - | <5 | <5 | <5 |
| Newydd newid y gyfraith yn yr Alban \ bellach wedi ei wahardd yn yr Alban | - | - | 10 | - | - | - | - | - |

**Tabl A1.7: Cwestiwn: C5 Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**

Sail: Pawb oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach -22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (297) | (421) | (261) | (393) | (668) | (733) | (655) | (685) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ar y teledu – newyddion \ rhaglen | 50 | 60 | 41 | 45 | 40 | 51 | 51 | 53 |
| Ar y radio – newyddion \ rhaglen | 14 | 12 | 15 | 11 | 12 | 26 | 14 | 19 |
| Hysbyseb ar y teledu | 7 | <5 | 5 | 13 | 22 | 26 | 17 | 19 |
| Dywedodd rhywun wrthyf (teulu \ ffrindiau) | 5 | 12 | 14 | 11 | 11 | 10 | 15 | 17 |
| Gwefan ar-lein – eitem newyddion | <5 | 9 | 15 | 16 | 15 | 15 | 17 | 16 |
| Y cyfryngau cymdeithasol (heblaw Facebook) | <5 | 7 | 7 | 8 | 12 | 13 | 11 | 13 |
| Facebook | <5 | 7 | 10 | 9 | 15 | 13 | 11 | 12 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - newyddion \ erthygl | 5 | 5 | 8 | 8 | 6 | 9 | 10 | 11 |
| Radio - hysbyseb | <5 | <5 | <5 | 5 | 9 | 11 | 8 | 11 |
| Papur newydd lleol - newyddion \ erthygl | <5 | <5 | <5 | 5 | 5 | 10 | 10 | 10 |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - newyddion \ erthygl | <5 | <5 | 5 | 11 | 9 | 10 | 10 | 10 |
| Hysbyseb ar-lein | - | - | - | - | - | 7 | 5 | 8 |
| Dywedodd rhywun wrthyf (gweithiwr proffesiynol) | 5 | 6 | <5 | <5 | <5 | 6 | 5 | 6 |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - hysbyseb | <5 | <5 | <5 | 5 | 6 | 6 | 5 | 5 |
| Gwefan ar-lein - arall | <5 | <5 | 7 | <5 | <5 | <5 | <5 | 5 |
| Taflen drwy’r drws | - | - | - | - | 6 | - | <5 | <5 |
| Papur newydd lleol - hysbyseb | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Cylchgrawn | <5 | - | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - hysbyseb | <5 | - | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trwy'r gwaith / addysg | - | - | - | - | - | - | <5 | <5 |

**Tabl A1.8: Cwestiwn: C6 Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am newid y gyfraith o gwbl? [DISGRIFIAD O'R NEWID YN Y GYFRAITH WEDI CAEL EI DDARPARU]**

Sail: Yr holl ymatebwyr

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (1,002) | (1,002) | (1,002) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ydw, rwy'n ymwybodol o'r newid | 17 | 23 | 12 | 21 | 42 | 54 | 50 | 53 |
| Ydw – ond ddim yn siŵr o'r manylion | 17 | 26 | 32 | 41 | 36 | 31 | 33 | 31 |
| Nac ydw | 64 | 50 | 53 | 36 | 22 | 14 | 16 | 16 |
| Ddim yn gwybod | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |

**Tabl A1.9: Cwestiwn: C7 Pa rai o’r datganiadau canlynol ynglŷn â newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru sy’n adlewyrchu eich barn chi orau?**

Sail: Yr holl ymatebwyr

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (1,002) | (1,002) | (1,002) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rwyf o blaid y newid yn y gyfraith sy’n cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol | 38 | 46 | 38 | 48 | 59 | 56 | 53 | 55 |
| Rwyf yn erbyn y newid yn y gyfraith sy’n cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol | 31 | 30 | 25 | 24 | 20 | 22 | 23 | 26 |
| Mae arnaf angen rhagor o wybodaeth i benderfynu | 21 | 16 | 28 | 22 | 16 | 18 | 19 | 16 |
| Ddim yn gwybod | 10 | 8 | 9 | 6 | 4 | 4 | 5 | 4 |

**Tabl A1.10: Cwestiwn: C8a Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

Sail: Y rhai sydd o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (366) | (469) | (417) | (511) | (619) | (556) | (563) | (578) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ddim yn cytuno â smacio \ cosbi plant yn gorfforol | 38 | 40 | 38 | 42 | 54 | 46 | 45 | 41 |
| Mae ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da \ disgyblaeth | 15 | 19 | 17 | 17 | 12 | 14 | 18 | 18 |
| Mae'n niweidiol i blant | 5 | <5 | 5 | 8 | 10 | 9 | 9 | 11 |
| Bydd yn helpu i amddiffyn plant | 6 | 7 | 6 | 10 | 12 | 10 | 10 | 10 |
| Cam-drin ydyw \ gall arwain at gam-drin | 5 | 9 | 10 | 10 | 10 | 9 | 10 | 7 |
| Mae rhai rhieni'n mynd yn rhy bell | 5 | 7 | <5 | 6 | 6 | <5 | 6 | 6 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw’n wers dda | - | - | - | - | - | 7 | <5 | 6 |
| Nid yw’n gweithio \ nid yw’n angenrheidiol | 5 | 5 | 6 | 7 | 5 | 7 | 7 | 5 |
| Mae tap yn iawn \ slap fach \ iawn os nad yw rhywun yn mynd yn rhy bell | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Cefais i fy nharo pan oeddwn yn blentyn | <5 | <5 | 6 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Mae’n rhoi anogaeth i ddefnyddio trais \ mae’n gwneud trais yn dderbyniol | - | - | - | - | - | 5 | <5 | <5 |
| Mae ei angen | <5 | <5 | <5 | <5 | - | - | <5 | <5 |
| Gwneud pethau’n fwy clir \ rhieni’n gwybod ble maen nhw’n sefyll | - | - | <5 | 7 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Dydw i erioed wedi smacio fy mhlant | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Nid yw’n wers dda / mae’n rhoi anogaeth i ddefnyddio trais | 8 | <5 | 8 | 10 | 10 | - | - | - |

**Tabl A1.11: Cwestiwn: C8b Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

Sail: Y rhai sydd yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (317) | (298) | (217) | (214) | (178) | (194) | (216) | (228) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae ei angen i reoli ymddygiad \ disgyblu'r plentyn \ addysgu am barch \ dangos ffiniau | 30 | 19 | 26 | 40 | 43 | 43 | 35 | 33 |
| Does dim disgyblaeth y dyddiau hyn \ mae plant yn ymddwyn yn wael \ dim parch | 8 | 6 | 12 | 24 | 19 | 27 | 22 | 26 |
| Mae'n iawn os nad yw'n mynd yn rhy bell \ os yw'n gosb resymol | 25 | 28 | 13 | 24 | 21 | 15 | 30 | 24 |
| Nid yw'n gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw ddrwg i mi \ i'm plant i | 7 | 8 | 22 | 13 | 17 | 17 | 13 | 15 |
| Anodd i'w blismona \ i'w orfodi \ i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Mae pob amgylchiad \ plentyn yn wahanol | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ni ddylai’r Llywodraeth ymhél â’r mater | 8 | <5 | 7 | 6 | <5 | 8 | <5 | <5 |
| Mae’r gyfraith yn iawn ar hyn o bryd \ nid oes angen cyfraith newydd | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | - | <5 | <5 |
| Nid oes mo’i angen | - | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Iawn pan fo’r plentyn mewn perygl | <5 | <5 | <5 | <5 | 6 | 5 | 7 | <5 |
| Dros ben llestri \ ddim yn rhesymol | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 |
| Dylai rhiant gael cosbi ei blentyn \ dylai fod â dewis \ dylai gael gwneud y penderfyniad | 19 | 18 | 9 | 13 | 7 | 7 | 7 | <5 |
| Ni ddylid ei droseddoli | 5 | <5 | <5 | <5 | <5 | - | <5 | <5 |
| Ei ddefnyddio fel dewis olaf | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | - | <5 | <5 |

**Tabl A1.12: Cwestiwn: C8c Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen?**

Sail: Y rhai y mae angen rhagor o wybodaeth arnynt i'w helpu i benderfynu a ydynt o blaid ynteu yn erbyn y newid

| | Ton 1 | Ton 2 | Ton 3 | Ton 4 | Ton 5 | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tach-18 | Tach-19 | Tach-20 | Tach-21 | Tach-22 | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (217) | (152) | (276) | (219) | (162) | (164) | (181) | (162) |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rhagor o fanylion \ rhagor o wybodaeth \ gwybodaeth am y gyfraith bresennol \ sut y byddai'n gweithio | 35 | 39 | 36 | 29 | 34 | 25 | 25 | 22 |
| Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu | 19 | 18 | 13 | 21 | 10 | 18 | 9 | 16 |
| Diffiniad o gosb resymol | 5 | 9 | 14 | 7 | 13 | <5 | 10 | 14 |
| Diffiniadau \ enghreifftiau | <5 | <5 | 8 | 13 | 13 | 10 | 17 | 13 |
| Ymchwil \ tystiolaeth o effaith smacio | 5 | <5 | 7 | <5 | <5 | 15 | 10 | 13 |
| Gwybodaeth am y gyfraith bresennol | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | - | <5 | 6 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 15 | 16 | 11 | 15 | 13 | 14 | 18 | 11 |
| Sut y bydd yn cael ei blismona \ ei orfodi \ sut i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | <5 | 6 | <5 | 6 | <5 | 5 | <5 | <5 |
| Angen amser i feddwl amdano \ rhagor o amser i feddwl amdano | <5 | - | <5 | <5 | - | <5 | <5 | <5 |
| Cosb \ cyhuddiadau i rieni | <5 | <5 | <5 | <5 | 7 | <5 | <5 | <5 |
| Diogelu \ amddiffyn rhieni | <5 | <5 | <5 | <5 | 5 | <5 | <5 | <5 |

**Tabl A1.13: Cwestiwn: C9 Yn awr bod y gyfraith wedi newid, pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi’n meddwl sy’n dal i gael eu caniatáu? Cosb gorfforol sydd...**

Sail: Yr holl ymatebwyr

| | Ton 6 | Ton 7 | Ton 8 |
|---|---|---|---|
| | Tach-22 | Tach-23 | Tach-24 |
| Maint y sail | (1,000) | (1,000) | (1,000) |
| | % | % | % |
| Ddim yn gadael unrhyw farc o gwbl | 9 | 11 | 15 |
| Yn achosi i’r croen gochi dros dro | 3 | 5 | 5 |
| Yn gadael clais sy’n para am ychydig ddyddiau | 1 | 2 | 2 |
| Yn gadael marciau neu gleisiau sy’n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond ddim yn arwain at anaf corfforol parhaol | 1 | 3 | 3 |
| Dim o’r rhain | 80 | 76 | 74 |
| Ddim yn gwybod | 8 | 9 | 7 |